Arwyddion a Symbolau yng Nghristnogaeth
Gweithgaredd 'Tebyg ac Anhebyg'

Mae rhai symbolau yn nodweddiadol o Gristnogaeth. Gwelir rhai ohonynt yn y tabl isod.

Tasg: Y disgyblion i roi'r enw cywir, llun a manylion sy'n debyg.
Gellir lliwio y rhannau sy'n debyg, neu eu torri allan a'u gludo.

Enw y Symbol	Llun y Symbol	Manylion am y Symbol
Colomen		Pan fedyddiwyd Iesu, dywed y Beibl fod Duw wedi anfon yr ysbryd Glan ar ffurf colomen. Mae colomen yn symbol o heddwch dros y byd.
Bara a Gwin		Dywedodd Iesu 'Myfi yw goleuni y Byd' Bydd Cristnogion yn defnyddio cannwyll fel symbol goleuni -yn cynrychioli Iesu . Mae Iesu'n arwain pobl mewn bywyd , yn union fel mae cannwyll yn arwain pobl yn y tywyllwch
Canhwyllau / Goleuni		Mae hwn yn symbol traddodiadol Gristnogol. Dyma'r llythrennau yn y gair Groeg am 'bysgodyn' (ICHTHUS) - llythyren gyntaf yn y cymal 'Iesu Grist, Mab Duw, Iachawdwr'
Arwydd y Pysgodyn (ICHTHUS).		Mae Cristnogion yn dathlu marwolaeth ac atgyfodiad Iesu drwy fwyta ac yfed gyda'i gilydd. Yn y Swper Olaf cymerodd Iesu fara a gwin gan gyfeirio atynt fel symbol o'i gorff a'i waed.

ADNODDAU MAGC *(Mudiad Addysg Grefyddol Cymru)*
Catalog Adnoddau, Cyhoeddiadau ac ôl gopiau o *'Syniadau AG'* ar gael.
Cyhoeddiadau Cynradd - *Pobl Arbennig – mewn ffydd a gweithred ;* *Adegau Arbennig; Y Nadolig – o flwyddyn i flwyddyn;* *Iesu - Ei bwysigrwydd i gredinwyr; Mannau Arbennig – Eu harwyddocad i gredinwyr*
3 llyfr NEWYDD – Cyfres Ymchwilio i Themâu: *Ymchwilio i Gredoau* ac *Ymchwilio i Gwestiynau Dyrys.* **Llyfr Saesneg** *Amazing Lives* (cyfaddasiad o *Am Bobl* – Huw John Hughes)
Cyhoeddiadau Uwchradd – *What the Welsh Churches say on moral and social issues; Barn yr Eglwysi ar faterion moesol a chymdeithasol.*
Cyffredinol: *More than Just RE* (CEMW Annual Lectures)
Disgownt ar gael i ysgolion yn yr Awdurdodau sy'n cyfrannu ac i fyfyrwyr
Cysyllter â: Sali Roberts, MAGC, Patshyn, Rhiwgwreiddyn, Ceinws, MACHYNLLETH
SY20 9EX (Tel/Ffacs: 01654 - 761697) e bost: sali@patshyn.fsnet.co.uk

© MAGC 2008

Syniadau A.G.

Tymor yr Hydref 2008 ***Pris £1.00***

Samantha Richards. Ysgol Gyfun Babyddol St. Joseph, Port Talbot.

Arwyddion a Symbolau

Mae llawer o arwyddion a symbolau o'n cwmpas, bob dydd, ble bynnag yr ydym yn mynd.
Yn y rhifyn yma o *Syniadau AG*, ein nod yw annog disgyblion i archwilio i rai o'r arwyddion yma... gweld sut a pham y defnyddir hwy.
Gan fod arwyddion a symbolau yn bwysig iawn mewn crefydd, byddwn yn edrych yn fanwl ar sut y defnyddir hwy yng Nghristnogaeth.

Adnabod Arwyddion a Symbolau

C . Fedrwch chi feddwl am unrhyw arwyddion neu symbolau fyddwn yn eu defnyddio yn aml?

Tasg: Mewn parau - y disgyblion i feddwl am arwyddion/symbolau, yna dynnu llun. Wedi gorffen, gallent eu cyflwyno i'r dosbarth a gweld os yw'r disgyblion eraill yn eu hadnabod.

Dyma rai enghreifftiau (petaent yn methu meddwl am rai);

Logo Nike; Arwydd 'Dim Mynediad': Mc Donalds; Cristnogaeth: Seren Dafydd.

C: Pam ein bod yn defnyddio arwyddion a symbolau ?
Gwahodd ymateb oddiwrth y disgyblion.
Ateb: ffordd o gyfathrebu - negeseuon, / syniadau / gwybodaeth.
dim angen defnyddio geiriau, na siarad
i werthu pethau
i roi syniadau i bobl
i gyfarwyddo pobl

Wyddoch chi fod mwy o bobl yn adnabod yr **M** aur fel Mc Donalds, nag oedd yn adnabod beth yw symbol y groes ? Dyna ddywed arolwg yn 2000.

Arwyddion

Maent yn gyflym, yn ffordd syml o drosglwyddo ffeithiau a chyfarwyddiadau. pwrpas arwydd yw gwneud ystyr rhywbeth yn glir fel bo pawb yn deall yr ystyr yma -- ee. arwyddion ar y ffordd fawr ac ar fap.

Symbolau

Mae symbolau yn ein helpu i ddychmygu rhywbeth mwy dwfn a dirgel.
Dengys symbolau lawer mwy nag arwyddion. Yn aml, maent yn dangos cred, syniadau a theimladau pobl ee. gall rhosyn coch fod yn symbol o gariad. a rhamant.

Gweithgaredd - ' Gweithiwch o allan' !

Mae nifer o ddarluniau yma - rhai yn arwyddion, rhai yn symbolau.
Tasg: gall disgyblion weithio mewn parau i weithio allan pa un yw'r symbol a pha un yw'r arwydd.

Trafodwch y dewisiadau gyda'r disgyblion - pam penderfynu fod rhai yn arwyddion nid symbolau.. ac i'r gwrthwyneb.
C: Beth mae'r arwyddion yn ei ddweud wrthym ?
C: Pa neges mae'r symbolau yn geisio ei roi i ni ?

Gall disgyblion wedyn geisio dylunio eu harwydd neu eu symbol eu hunain - i gyfleu neges.
Gellir gwneud hyn yn unigol neu mewn parau / grwp, yna drafod gyda'r dosbarth wedi iddynt gwblhau y dasg.

Arwyddion a Symbolau yn y Beibl

Defnyddir arwyddion a symbolau drwy'r Beibl.

Yr Hen Destament - defnyddia Duw lawer o arwyddion yn yr Hen Destament i ddangos i bobl ei fod yn BOD. Dyma rai enghreifftiau:

1. **Noa a'r Dilyw (Genesis 6:9-9:17)**
Roedd yr enfys yn arwydd o addewid Duw i beidio dinistrio y ddaear byth eto

2. **'Joseff y Breuddwydiwr' (Genesis 37, 39-47)**
Cafodd Joseff weledigaethau yn ei freuddwydion - y byddai ef un dydd yn enwog.

3. **'Y Berth yn Llosgi' (Exsodus 3)**
Roedd Duw am i Moses fynd at Pharo a gofyn iddo i adael i bobl Dduw fynd yn rhydd - roeddynt yn gaeth i'r Eifftiaid. Doedd Moses ddim yn hapus i wneud hyn , felly rhoddodd Duw arwydd iddo i ddangos ei fod yna gydag ef ac y byddai yn helpu Moses. (y berth yn llosgi).

4. **Y Deg Pla (Exsodus 7-8)**
Ymhellach ymlaen, cafodd Moses bwer arbennig gan Dduw i ddefnyddio arwyddion fyddai yn gorfodi y Pharo i ollwng y caethweision yn rhydd. Y Deg Pla oedd yr rhain. * Efallai gallwch edrych ar *'The Prince of Egypt'* - ffilm am fywyd Moses - i ddangos 3 a 4.

Y Testament Newydd - yn ystod ei fywyd, defnyddiodd Iesu arwyddion a symbolau i ddangos ei bobl mai ef oedd mab Duw. Enw'r arwyddion hynny oedd **gwyrthiau.**
Dyma rai ohonynt:

1. **Iesu yn iacháu y Claf o'r Parlys (Marc 2:1-12)**
Stori am Iesu yn iacháu rhywun - yn arwydd o bwer Duw dros bechod.

2. **Iesu yn Iacháu dyn claf (Mathew 8:1-4)**
Stori iacháu arall

3. **Tawelu y Storm (Luc 8: 22-25)**
Gwyrth natur - yn arwydd o bwer Duw dros bopeth, hyd yn oed elfennau natur.
Gallwch fynd i www.request.org.uk i weld y stori yma. Ewch i 'Main Site', dewiswch 'Bible' , yna dewiswch ' Life and Teaching of Jesus', yna 'Jesus calms the Storm'
Mae'r stori yn fyr ond gyda lluniau.

* Efallai gallwch wylio darnau o **'The Miracle Worker'** - ffilm am fywyd Iesu - i ddangos rhai o'r straeon yma.

Tasg: Gall disgyblion ail adrodd y straeon - un o'r Hen Destament neu'r Testament Newydd mewn sawl ffordd - bwrdd stori / olwyn / strip cartwn / erthygl papur newydd/ cyfweliad gyda llygad dyst.